



Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

Prospectws Cymeradwyo

Ysbrydoli Arweinwyr – Cyfoethogi Bywydau
agaa.cymru

Cynnwys

3_Cyflwyniad

4_Achieve More Training

6_Cyngor Celfyddydau Cymru

8_Aspire 2Be

10_Ysgol Gynradd Gellifedw

12_Gyrfa Cymru

14_Chrysalis Mindset Coaching

16_DARPL

18_Impact in Learning

20_Insight HCR Ltd

22_Leading Purpose

24_Mindfulness in Action

26_Canolfan Rhagoriaeth OLEVI Gogledd Cymru

28_Portal Training

30_Consortia Rhanbarthol yng Nghymru

34_Rethinking Education

36_Grŵp Llywio Rhaglen Arwain a Rheoli Gwaith Ieuenctid

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r prospectws hwn i gefnogi'r Ddarpariaeth Arweinyddiaeth a Gymeradwywyd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.

Un o'n dibenion craidd yw cyfrannu at feithrin galluoedd proffesiynol arweinwyr presennol a darpar arweinwyr ar draws y system addysg yma yng Nghymru. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy ddarparu cydlynad a sicrwydd ansawdd ar gyfer pob math o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth addysgol sydd ar gael yng Nghymru. Mae'r prospectws hwn yn cynnwys gwybodaeth am y ddarpariaeth sydd wedi'i chymeradwyo ar hyn o bryd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac am y darparwyr sy'n cynnig y dysgu proffesiynol hwn.

Mae'r broses gymeradwyo'n cynnig sicrwydd ansawdd a hyder i arweinwyr addysgol o Fôn i Fynwy bod y ddarpariaeth maen nhw'n ei defnyddio o ansawdd uchel, yn addas i'r diben ac yn cynnig gwerth am arian. Mae'r broses Gymeradwyo yn cynnig manteision i'r darparwr drwy broses sicrhau



ansawdd drylwyr a chadarn hefyd gan feithrin ymddiriedaeth, enw da a magu hyder yn eu cynnig datblygu arweinyddiaeth.

Rydyn ni'n annog pob darparwr sy'n datblygu ac yn darparu cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth i ystyried cyflwyno eu darpariaeth i'w chymeradwyo. Mae'r broses gymeradwyo'n cynnwys meini prawf uchelgeisiol sydd wedi'u gosod yn glir yng nghydestun polisi Cymru ac sy'n hyrwyddo mynediad cyfartal i bob arweinydd, waeth ym mha leoliad neu iaith maen nhw'n gweithio neu le bynnag maen nhw yng Nghymru.

Rhaid inni barhau i ddarparu'r ddarpariaeth orau i gefnogi ein holl arweinwyr addysgol ledled Cymru gan sicrhau ein bod yn meithrin ac yn cryfhau'r gallu i arwain ar bob lefel.

Achieve More Training

Mae Achieve More Training (AMT) yn ddarparwr hyfforddiant yng Ngogledd Cymru ac yn rhan o Gonsortiwym Dysgu Seiliedig ar Waith Gogledd Cymru sy'n cydlynu'r cynnig dysgu seiliedig ar waith ar gyfer Gogledd Cymru. Mae AMT yn gweithio'n strategol mewn lleoliadau addysgol, datblygu chwaraeon, a'r diwydiant hamdden ar draws chwe sir Gogledd Cymru gan ddarparu cyfleoedd hyfforddi ar lefelau 1-6 gyda Chanolfannau Dysgu Proffesiynol yn Wrecsam, Treffynnon, y Rhyl a Chonwy. Gan dyfu'n gyflym, ers ei sefydlu yn 2019, mae gan y cwmni dros 300 o ddysgwyr ar ei raglenni hyfforddi ar hyn o bryd.

Manylion cyswllt: Info@achievemoretraining.com
01745 797 797

Gwefan: www.achievemoretraining.com



“

'Hoffwn ddiolch i chi am eich holl gymorth yn ystod y cwrs Lefel 5 oherwydd defnyddiais lawer o'r dysgu yn fy nghais a'm cyfweiliad ac rwy'n credu mai dyma wnaeth fy helpu i gael y dyrchafiad.'

Michelle Thomas,
Aura Leisure

“

'Roedd y cwrs lefel 5 yn help mawr i mi yn fy nghyfweliad ar gyfer prifathrawiaeth gysylltiol'

Claire Evans, Ysgol
Uwchradd y Fflint

“

'Roeddwn i eisiau diolch i chi am yr holl gefnogaeth yn ystod yr NVQ oherwydd roedd y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad a enillwyd drwy'r cymhwyster yn ddefnyddiol iawn ar y cam ymgeisio a chyfweld.'

John Jones, Dirprwy
Bennaeth, Ysgol Gynradd
Gymunedol Leeswood

ILM (Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth) Diploma Lefel 5 ar Egwyddorion Arwain a Rheoli. (8623)

Trosolwg

Mae'r cwrs hwn yn cysylltu'r ddamcaniaeth ag ymarfer ac yn datblygu cymhwysiad a thystiolaeth o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau trwy ystod o unedau gorfodol a dewisol. Mae'r cwrs hwn yn cynnwys dau gymhwyster, cwrs diploma tystysgrif dechnegol a addysgir dros dri diwrnod wyneb yn wyneb gyda dwy sesiwn ar-lein a diploma NVQ Lefel 5 a gyflwynir yn unigol trwy ymweliadau â gweithle'r dysgwr. Oherwydd ei statws fel rhaglen dysgu seiliedig ar waith, mae'r ddau gymhwyster, sy'n cymryd 20 mis i'w cwblhau, yn hollol rhad ac am ddim i ddysgwyr.

Nodau ac Amcanion

Wedi'i asesu trwy gyfuniad o aseiniadau ysgrifenedig, trafodaethau grŵp ac ymchwiliadau personol, nod y cwrs yw archwilio perthnasedd theori arweinyddiaeth trwy hunan fyfrio ymarferol. Mae unedau astudio fel arfer yn cynnwys y canlynol:

- Dulliau arwain; beth sy'n gweithio orau mewn gwahanol sefyllfaoedd.
- Cael y gorau o'ch tîm trwy gymhelliant a dirprwyo effeithiol.
- Hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a rheolaeth ariannol.
- Hyfforddi unigolion a rheoli sgysiau anodd.
- Optimeiddio sgiliau cyfathrebu a rheoli newid.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Nod y cwrs yw datblygu sgiliau arwain athrawon ar lefel arweinyddiaeth ganol gan gynnwys y rhai sy'n dyheu am arweinyddiaeth uwch.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu genedlaethol ar gyfer creadigrwydd a diwylliant. Mae'r rhaglen Dysgu Greadigol drwy'r celfyddydau yn cefnogi ysgolion i ddatblygu dulliau newydd o ddylunio'r cwricwlwm ac yn cynorthwyo arweinwyr ac athrawon i archwilio dulliau arloesol o addysgu a dysgu drwy roi'r celfyddydau a chreadigrwydd wrth galon addysg.

Manylion cyswllt: Creative.learning@arts.wales

Gwefan: arts.wales/cy/arweinyddiaeth-greadigol



“

Deuddydd o hyfforddiant cychwynnol ysbrydoledig – doeddwn i ddim eisiau iddo ddod i ben!

“

Mae'r cwrs a'r rhaglen wedi fy ysbrydoli i wneud fy ymchwil personol fy hun am arweinyddiaeth greadigol.

Sarah Taylor, Ysgol Gynradd Gatholig St. Roberts

“

Rwyf wedi mwynhau'r daith greadigol hon yn fawr iawn ac mae wedi newid y ffordd o addysgu i mi yn onest. Rydym wedi darganfod bod y plant ar draws yr ysgol yn mwynhau eu gwersi llawer mwy oherwydd eu bod yn gallu arwain y gwersi a meddwl am syniadau a themâu sydd o ddiddordeb iddynt.

Katie Bradley, Ysgol Gymraeg Mornant

Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol

Trosolwg

Mae'r Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol yn herio cyfranogwyr i fyfyrion onest am eu hymarfer a'u cyd-destunau proffesiynol a nodi'r rhwystrau a allai amharu ar eu gallu i ddod yn arweinwyr creadigol. Mae'r rhaglen yn dechrau gyda hyfforddiant deuddydd a ddarperir gan Dîm Arwain Creadigol Cyngor Celfyddydau Cymru. Yna caiff pob cyfranogwr ei baru ag Asiant Creadigol, yn seiliedig ar anghenion arweinydd yr ysgol, ardal, ac iaith yr ysgol, gan ffurfio partneriaeth waith parhaus dros gyfnod o 12 wythnos. Mae'r Asiant Creadigol yn gweithredu fel mentor a ffrind beirniadol; atgyfnerthu egwyddorion arweinyddiaeth greadigol, a chymryd rhan mewn deialog barhaus, gefnogol a myfyriol. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i theilwra i gam ddilyniant presennol pob cyfranogwr yn eu gyrfa arweinyddiaeth broffesiynol.

Nodau ac Amcanion

Nod y rhaglen hon yw:

- Dangos sut i gefnogi staff i gymryd risgiau a datblygu eu dysgu proffesiynol trwy ymholi a myfyrion.
- Archwilio rôl ganolog cydweithio, deialog ac ymarfer myfyriol.
- Herio cyfranogwyr trwy archwilio rhagdybiaethau ac arferion sy'n rhwystro newid arferion.
- Sefydlu rhwydwaith rhwng cyfranogwyr i gydweithio, myfyrion gyda'i gilydd ac arwain ei gilydd.
- Ennill dealltwriaeth o sut y gall arweinyddiaeth a dysgu creadigol fod yn sail i'r gwaith o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, y pedwar diben a'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arwain mewn lleoliadau unigol, a llywio'r gwaith hwnnw.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chynllunio ar gyfer y rheini sy'n ymgeisio i rolau arweinyddiaeth ganol neu uwch, er ein bod yn annog ymwybyddiaeth o arweinyddiaeth ym mhob rôl.



Aspire 2Be

Mae Aspire 2Be yn gwmni technoleg dysgu sydd wedi ennill sawl gwobr, gyda dros 10 mlynedd o brofiad o ddarparu atebion dysgu arloesol i gleientiaid gwerthfawr ar draws y sectorau Addysg a Busnes, yn y DU ac yn fyd-eang.

Ein nod yw grymuso ysgolion, busnesau a sefydliadau drwy atebion dysgu digidol arloesol. Gan ddefnyddio'r sgiliau a'r technolegau diweddaraf, rydym yn darparu datblygiad proffesiynol a chymwysterau; llwyfannau e-ddysgu pwrpasol; a strategaeth ddigidol a thrawsnewid.

Manylion cyswllt: info@aspire2be.co.uk

Cyfeiriad gwe: www.aspire2be.co.uk



The Learning Technology Company

ILM ar gyfer Addysgwyr Lefel 4 a 5

Trosolwg

Mae ILM ar gyfer Addysgwyr yn cynnig cymwysterau ILM a ariennir yn llawn ar lefelau 4 a 5, gyda llwybrau dysgu penodol ar gyfer arweinyddiaeth o fewn addysg. Cynlluniwyd y rhaglen hon i ddarparu llwybr dysgu strwythuredig i unigolion sy'n dymuno dod yn arweinwyr ym maes addysg. Mae cynnwys a chyflwyniad y cymwysterau hyn wedi'u crefftio gan arweinwyr profiadol o bob rhan o'r sector addysg a'i nod yw ymgorffori offer digidol i wella arweinyddiaeth effeithiol o fewn addysg.

Rydym wedi dewis pynciau penodol yn ofalus o bortffolio unedau cymwysterau'r ILM sy'n allweddol i arweinyddiaeth effeithiol yn y sector addysg.

Nodau ac Amcanion

Mae ein gweithdai yn ymgorffori ac yn anelu at ddod ag arweinwyr ynghyd o fewn addysg i rannu a datblygu sgiliau newydd, er enghraifft, mae ein gweithdy "Arloesi a Newid" yn canolbwyntio ar ddefnyddio offer digidol i weithredu, mesur a dylanwadu ar newidiadau yn y sector addysg.

Nod cyffredinol y cynnig hwn yw rhoi cyfle i arweinwyr presennol ac arweinwyr y dyfodol ym myd addysg ennill cymhwyster achrededig tra hefyd yn rhoi'r arfau arweinyddiaeth iddynt fynd â'r lleoliad addysg i'r lefel nesaf. Er bod llawer o gymwysterau Arwain a Rheoli ar gael i staff addysgol, mae ein rhaglen yn canolbwyntio'n unigryw ar arweinyddiaeth yn y sector addysg.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Wedi'i gynllunio ar gyfer arweinwyr a darpar arweinwyr o fewn y sector addysg.

ILM ar gyfer Addysgwyr Lefel 4 a 5

Trosolwg

Nod y rhaglen yw datblygu arweinwyr ysbrydoledig i hwyluso trawsnewidiadau digidol ac i godi safonau ar gyfer staff a disgyblion.

Un o'r amcanion craidd yw datblygu arfer arweinyddiaeth ddigidol a sut y gallant hwyluso'r cyfleoedd priodol i wella defnydd eu hysgol o dechnoleg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, o ddatganiad gweledigaeth i weithrediad yn yr ystafell ddosbarth ac ystafell athrawon. Mae'r cwrs hwn yn rhoi mewnwleidiad ac arweiniad ymarferol i chi ar ddiffinio a gweithredu strategaeth ddigidol gynaliadwy ar gyfer eich ysgol.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Arweinwyr addysgol

“

“Mae cwblhau Lefel 5 ILM mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth wedi bod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol ar gyfer fy rôl. Mae'r unedau dan sylw yn berthnasol i'm rôl ac wedi fy helpu i ddatblygu fy sgiliau arwain a rheoli.”

Nodau ac Amcanion

Nod 1: Creu Gweledigaeth Ysgol

- Deall y berthynas rhwng Pobl, Proses a Chynnyrch.
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd gweledigaeth sydd wedi'i mynegi'n dda.
- Sefydlu gwerthusiad sylfaenol o 'ddigidol' yn eich ysgol.

Nod 2: Strategaeth Adeiladu

- Nodi dyheadau fel grym ar gyfer newid.
- Dysgu sut i greu a datblygu strategaeth ddigidol effeithiol yn effeithiol.
- Defnyddiwch fodelau damcaniaethol i werthuso eich ysgol a nodi cyfleoedd i dargedu meysydd allweddol, wedi'u halinio â'ch cynllun datblygu ysgol.

Nod 3: Hwyluso Newid

- Deall sut i gefnogi eich staff orau gydag uwchsgilio digidol.
- Darganfyddwch ystod eang o strategaethau i helpu staff i ymgysylltu â thechnolegau addysgu a dysgu.

Nod 4: Llwyddiant Sgaffaldiau

- Dysgwch sut i adeiladu strategaeth gyfathrebu effeithiol trwy ddull cynnwys a chyd-greu.
- Adeiladwch gynllun gweithredu lefel uchel gyda cherrig milltir gysylltiedig i'w rhoi ar waith yn eich lleoliad.



Ysgol Gynradd Gellifedw, Abertawe



Mae Ysgol Gynradd Gellifedw yn sefydliad dysgu blaengar sydd â hanes cryf iawn o ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel. Eu hathroniaeth yw bod arweinyddiaeth yn allweddol i lwyddiant, ac maent wedi ymrwymo i dyfu a meithrin arweinwyr o fewn a thu allan i’w lleoliad. Wrth i ysgolion yng Nghymru ddechrau gweithredu’r Cwricwlwm i Gymru, nod Ysgol Gynradd Gellifedw yw symud ymlaen mewn partneriaeth ag eraill, gan weithio tuag at gyflawni Cenhadaeth Ein Cenedl a chreu poblogaeth a gweithlu iach, ffyniannus a gwydn o fyfyrwyr.

Manylion cyswllt: 01792 814814

Gwefan: www.birchgroveswansea.co.uk

“

‘Diolch yn fawr iawn am redeg y cwrs hwn. Rwyf wedi ei chael mor fuddiol. Mae wedi fy ysgogi a’u hysbrydoli i wneud newid cadarnhaol yn fy ysgol.’

Jack Webster, Ysgol Gynradd Gors

“

‘Cwrs defnyddiol a chynhyrchiol iawn. Mae gen i ddealltwriaeth ddyfnach o safonau proffesiynol, yn enwedig cydweithio, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth. Mae’r cwrs hwn wedi fy ysgogi, wedi rhoi’r sgiliau sydd eu hangen arnaf i yrru mentrau ymlaen yn yr ysgol ac mae wedi bod yn ffynhonnell wych o gefnogaeth. Mae wedi rhoi mwy o hyder i mi arwain maes ar draws yr ysgol. Diolch yn fawr iawn am yr holl gyngor ac arweiniad. Mae’n cael ei werthfawrogi’n fawr.’

Jeni Jones, Ysgol Gynradd Townhill

“

‘Diolch am ddarparu cwrs gwych! Mae wedi fy arfogi â’r sgiliau a’r hyder i arwain MDPH ar draws yr ysgol.’

Louise Mabbett, Ysgol Gynradd Plasmarl

Datblygu Arweinyddiaeth Ganol mewn Lleoliad Cynradd

Trosolwg

Arweinir y ddarpariaeth hon gan arweinwyr prosiect yn Ysgol Gynradd Gellifedw ac mae’n archwilio pum maes allweddol o arweinyddiaeth ganol:

Sesiwn 1 - Gweledigaeth ac arweinyddiaeth ganol effeithiol yn y cyd-destun Cymreig presennol, gan gynnwys safonau, dysgu proffesiynol ac ysgolion fel sefydliadau dysgu.

Sesiwn 2 – Arwain addysgeg sy’n cefnogi Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys addysgu a dysgu effeithiol, monitro, atebolrwydd a chyfrifoldeb yn eich hunan ac mewn eraill.

Sesiwn 3 – Rheolaeth ac arweinyddiaeth, gan gynnwys hunan arfarnu, cynllunio ar gyfer gwelliant a rheoli adnoddau.

Sesiwn 4 – Cydweithio a gwneud y gorau o gyfleoedd partneriaeth o fewn a thu allan i drefniadaeth yr ysgol, gan gynnwys effaith ar les ac ymgysylltu effeithiol yn y gweithle.

Sesiwn 5 – Gwerthusiad o’r gwaith a wnaed gan gyfranogwyr, gan gynnwys cyfleoedd i rannu a dysgu o ymarfer.

Nodau ac Amcanion

Ar ddiwedd y sesiynau disgwylir y bydd pob cyfranogwr:

- Wedi’u grymuso i wireddu newid sy’n arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu’r disgyblion yn eu hysgol.
- Wedi’u datblygu’n llawnach fel arweinwyr, yn deall prosesau allweddol gwerthuso ysgol effeithiol a chynllunio datblygiad, o fewn cyd-destun tirwedd addysg sy’n esblygu’n barhaus.
- Wedi’u hysbrydoli a’u cymell fel gweithwyr proffesiynol, ac yn gallu datblygu eraill ar hyd llwybr datblygiad ysgol sy’n cael ei arwain gan ddysgu ac ymholi.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae’r ddarpariaeth wedi’i hanelu at arweinwyr canol presennol ac arweinwyr y dyfodol ledled Cymru sydd â diddordeb mewn datblygu eu medrau arwain ymhellach.



Gyrfa Cymru



Gyrfa Cymru
Careers Wales

Is-gwmni sydd dan berchnogaeth lwy Llywodraeth Cymru yw Gyrfa Cymru, a'u cylch gwaith yw darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd annibynnol, diduedd a dwyieithog ar gyfer Cymru. Maen nhw'n helpu eu cwsmeriaid i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i reoli eu gyrfaoedd a gwneud penderfyniadau mewn byd cymhleth sy'n prysur newid. Eu gweledigaeth yw bod pob person ifanc yn gallu symud yn rhwydd ac yn llwyddiannus i fyd gwaith ac y dylai oedolion gael eu hysbrydoli i dderbyn cyfrifoldeb am eu gyrfaoedd.

Manylion cyswllt: curriculumteam@careerswales.gov.wales

Gwefan: www.gyrfacymru.llyw.cymru

“

Mae'r cwrs wedi rhoi'r wybodaeth a'r adnoddau gyrfaoedd arbenigol angenrheidiol i mi ddatblygu cwricwlwm gyrfaoedd cynhwysfawr a deniadol yn fy ysgol. Mae'r wybodaeth a'r arweiniad a ddarperir drwy gydol y cwrs wedi galluogi ein hysgol i lunio gweledigaeth glir ar gyfer datblygu addysg gyrfaoedd ar draws pob ystod oedran a gallu. Rhoddodd y mewnwelediad gwerthfawr i'r cysylltiadau rhwng y Cwricwlwm i Gymru a Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith (CWRE) a drafodwyd ac a archwiliwyd ar y cwrs yr hyder i mi gyflwyno gwybodaeth yn hyderus i'r UDA a'r athrawon dosbarth.

Jeff Powell, Ysgol Bryn Eliau

“

Roedd astudio ar gyfer y Dystysgrif Arweinyddiaeth Gyrfa Lefel 6 wedi rhoi cipolwg newydd i ni ar sut y gellir defnyddio addysg gyrfaoedd i herio ac arwain dysgwyr. Pan fyddwn yn ystyried agwedd gyfannol y Cwricwlwm i Gymru, a'r ffocws ar baratoi unigolion ar gyfer dysgu gydol oes, mae'r cwrs hwn wedi bod yn allweddol wrth ddarparu arweiniad ar sut i ddatblygu rhaglen gyrfaoedd cydlynol sy'n sicrhau bod dysgwyr yn gallu adnabod y sgiliau y byddant eu hangen yn llwybrau'r dyfodol, yn ogystal â chynnig cyfleoedd iddynt wella'r sgiliau hyn.

Kate Loram, Ysgol Cas-gwent

“

O safbwynt anghenion addysgol arbennig, mae'r dystysgrif arweinyddiaeth Gyrfa wedi fy ngalluogi i ailfeddwl am CWRE a sut mae'n cael ei gyflwyno yn ein lleoliad. Mae wedi fy annog i feddwl y tu allan i'r bocs a chyflwyno'r thema drawsbynciol trwy dasgau cyfoethog effeithiol yn seiliedig ar unigolion a'u dymuniadau, eu hanghenion a'u dyheadau. Mae datblygu model y gellir ei addasu ar gyfer pob athro a disgybl wedi golygu bod modd addysgu CWRE o 3-19 oed.

Ceryn Thomas, Ysgol Greenfield

Tystysgrif Lefel 6 mewn Arweinyddiaeth Gyrfaoedd

Trosolwg

Mae'r Dystysgrif Lefel 6 mewn Arweinyddiaeth Gyrfaoedd wedi'i hanelu at staff addysgu ac ymarferwyr sydd â chyfrifoldeb am Yrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith (CWRE) yn eu sefydliad. Mae rôl yr Arweinydd Gyrfaoedd yn golygu mwy na chydlyn a gweinyddu cyfres o weithgareddau gyrfaoedd; bydd CWRE yn thema drawsbynciol yn Gwricwlwm i Gymru, a bydd angen arweinyddiaeth strategol i reoli cyfraniadau staff o fewn eu sefydliad a phartneriaid allanol, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfaoedd a chyflogwyr, i raglen yrfaoedd cydlynol ar gyfer pobl ifanc.

Nodau ac Amcanion

Nodau'r cwrs hwn yw meithrin dealltwriaeth feirniadol deiliaid y swydd o sut i gynllunio a dylunio rhaglen ddysgu sy'n gysylltiedig â gyrfa mewn ysgol neu goleg Addysg Bellach (AB) a galluogi deiliad y swydd i gynllunio, dylunio a gwerthuso'r rhaglen dysgu sy'n gysylltiedig â gyrfa a gwneud argymhellion ar gyfer gwella.

Hefyd, mae'r cwrs yn ceisio datblygu dealltwriaeth feirniadol deiliaid y swydd o brosesau adolygu, gwerthuso a datblygu gwaith datblygu gyrfa a helpu deiliad y swydd i arwain y gwaith o wella gwaith datblygu gyrfa'n barhaus mewn sefydliadau o'r fath. Mae'r cwrs yn cefnogi dealltwriaeth feirniadol o arwain a rheoli gwaith datblygu gyrfa hefyd fel y gall deiliad y swydd arwain a rheoli gwaith datblygu gyrfa mewn sefydliadau addysg.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Staff addysgu ac ymarferwyr o ysgolion a lleoliadau uwchradd (11-18), gan gynnwys colegau Addysg Bellach.



Chrysalis Mindset Coaching

Mae Chrysalis Mindset Coaching yn gwmni pwrpasol sy'n arbenigo yn yr agwedd ddynol ar arweinyddiaeth. Mae'n canolbwyntio ar y sgiliau rhyngpersonol drwy ddatblygu deallusrwydd emosiynol (EQ) a sgiliau hyfforddi'r unigolyn.

Mae Chrysalis Mindset Coaching yn rhoi sylw i'r ymddygiad dynol o fewn timau, gan alluogi pobl i ddeall eu pwyntiau pwysedd i hunan-hyfforddi eu hunain a'u timau drwy'r cyfnodau hyn. Gwelwyd bod y dechneg hon yn gwella cynhyrchiant a pherthynas ag eraill.

Mae Chrysalis Mindset Coaching yn sicrhau bod yr unigolyn wrth wraidd yr hyn mae'n ei wneud. Mae eu gweithgareddau, eu theori a'u dysgu i gyd yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Manylion cyswllt:
Info@chrysalismindset.com

Gwefan:
www.chrysalismindsetcoaching.com



ALP – Rhaglen Arweinyddiaeth Uwch 6 Diwrnod

Trosolwg

Mae ail-fframio strwythurau iaith sy'n ategu meddyliau cadarnhaol ac adeiladu tîm o'r pwys mwyaf mewn cyfnodau o newid parhaus. Rydyn ni'n edrych ar dechneg unigryw 'Hyfforddiant Alcemi Iaith' sy'n canolbwyntio ar y patrymau iaith er mwyn galluogi pobl i gyflawni o'u gorau mewn sefydliadau. Bydd y rhaglen 6 diwrnod yn eich helpu i ddatblygu sgiliau allweddol er mwyn eich galluogi i helpu chi'ch hun ac eraill yn y gweithle.

Nodau ac Amcanion

Y nod yw creu hyfforddiant mewnol a llysgenhadon EQ. Sicrhau bod sgiliau hyfforddi ac EQ parhaus yn cael eu hymgorffori mewn sefydliadau i gefnogi timau ar adegau o bwysau.

Bydd cyfranogwyr yn cael hyfforddiant i fod â dealltwriaeth ddofn o'r elfennau canlynol:

- Technegau cwestiynu cyfoethog, sgiliau gwranddo gweithredol a sgiliau dylanwadu
- Deall sgiliau, egwyddorion ac arferion rheoli effeithiol mewn hyfforddi a mentora
- Hunanymwybyddiaeth a hunan-reoleiddio ar adegau o bwysau ychwanegol
- Sut i ddatblygu diwylliant hyfforddi ar draws adrannau/timau
- Sut i ddefnyddio technegau cwestiynu effeithiol
- Dysgu amrywiaeth o ddulliau a thechnegau i'ch galluogi i hyfforddi mewn pob math o gyd-destunau ar draws y gweithle cyfan
- Strategaethau ar sut i bontio'r bwlch rhwng lle rydych chi arni nawr a lle hoffech chi fod drwy ail-fframio iaith gadarnhaol
- Ymwreiddio gwytnwch i wneud y gorau o sgysiau ac adborth cadarnhaol

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae'r rhaglen wedi'i bwriadu ar gyfer Cyfarwyddwyr, Cynghorwyr, Penaethiaid, Uwch arweinwyr.

Rhaglen Hyfforddiant Weithredol Uwch 3 diwrnod

Trosolwg

Gall datblygu diwylliant hyfforddi roi dulliau ac adnoddau cyfoethog i ni i lywio ein perfformiad a chodi ein safonau. Bob diwrnod, bydd cyfleoedd i ddatblygu eich sgiliau trwy sesiynau hyfforddi byw fesul pâr/tri. I'r rhai ohonoch sy'n dod ag aelodau'r tîm, bydd yn gyfle perffaith i weithio drwy rai problemau cyfredol yn eich gweithle. Bydd gwaith darllen cefndirol rhwng diwrnodau hyfforddi yn hanfodol i helpu gydag ymarferion amrywiol.

Nodau ac Amcanion

Bydd cyfranogwyr yn cael hyfforddiant i fod â dealltwriaeth ddofn o'r elfennau canlynol:

- Sut i ddefnyddio technegau cwestiynu effeithiol gyda'n timau i wella perfformiad
- Deall y sgiliau a'r modelau allweddol ar gyfer hyfforddi a gallu eu cymhwyso mewn perthynas hyfforddi yn ein sefydliadau
- Dysgu amrywiaeth o ddulliau a thechnegau i'ch helpu i hyfforddi mewn pob math o gyd-destunau ar draws y gweithle cyfan
- Edrych yn fanwl ar arddulliau dysgu unigol (Technegau NLP) i deilwra nodau a strwythurau orau
- Datblygu dealltwriaeth ddofn o gymwyseddau Deallusrwydd Emosiynol (EQ)
- Dyfnhau eich dealltwriaeth o sut y gall hyfforddi a mentora effeithio ar eich sefydliad
- Diffinio'r gwahaniaeth rhwng hyfforddi a mentora
- Strategaethau ar sut i bontio'r bwlch rhwng lle rydych chi arni nawr ar y continwmm hyfforddi a lle hoffech chi fod
- Datblygu technegau cwestiynu dwfn a chyfoethog, sgiliau gwranddo gweithredol a sgiliau dylanwadu i sicrhau ansawdd rhagorol o ddeialog a gallu herio'n raslon yn y gweithle

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio ar gyfer Cyfarwyddwyr, Cynghorwyr, Penaethiaid, Uwch arweinwyr.

Gwytnwch 3 Diwrnod

Trosolwg

Mae cydnerthedd yn allweddol i adeiladu a chynnal lles yn y gweithle. Dyma sy'n sbarduno perfformiad uchel iach mewn timau. Mewn unrhyw amgylchedd gwaith lle mae gweithwyr yn agored i niwed neu'n teimlo eu bod wedi'u llethu, mae gweithle cydnerth yn allweddol i atal pwysau a gofynion gwaith rhag eich trechu. Mae ein rhaglen 3 diwrnod yn rhoi'r adnoddau i chi reoli hyn.

Nodau ac Amcanion

- Lefel 1: 'Deall fi' - Ar y diwrnod cyntaf, cewch gyfle i archwilio eich gwerthoedd craidd a deall pwysigrwydd sut mae'r rhain yn effeithio ar eich penderfyniadau bob dydd.
- Lefel 2: Ymdrin ag adweithiau newid emosiynol - ar yr ail ddiwrnod, byddwn yn treiddio'n ddyfnach i'n hymatebion ac adweithiau newid emosiynol.
- Lefel 3: Grym iaith - byddwn yn ymchwilio'n fanylach i rym iaith ar y trydydd diwrnod. Bydd yn ein helpu i weld yn iawn sut mae'r geiriau rydyn ni'n eu defnyddio gyda'n hunain ac eraill yn effeithio arnom ni mewn gwirionedd.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Pob lefel.



DARPL

DARPL

 Diversity and Anti-Racist
Professional Learning

 Dysgu Proffesiynol
Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol

Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol

Mae DARPL yn dod â thîm amrywiol o ddarparwyr sydd â phrofiad byw a phroffesiynol ynghyd trwy ganolbwynt dysgu ac adnoddau proffesiynol gyda phersbectif Cymreig i godi ymwybyddiaeth hiliol amlddisgyblaethol, wrth i ni gyd weithio gyda'n gilydd o fewn y Cwricwlwm Newydd i Gymru.

Manylion cyswllt: darpl@cardiffmet.ac.uk

Gwefan: darpl.org

“

Fe wnaeth y ddarpariaeth DARPL fy helpu i fyfrio ar ein harfer yn yr ysgol a rhoi ysbrydoliaeth i mi i ddatblygu ein gwaith tuag at feithrin diwylliant gwrth-hiliaeth yn fy ysgol.

“

Roedd y dysgu proffesiynol yn ddwfn, yn ddiddorol ac yn procio'r meddwl. Fe wnes i fwynhau cael fy neffro i bersbectif nad oeddwn erioed wedi meddwl amdano o'r blaen. Rwy'n rhannu gyda chydweithwyr ac yn cynllunio ymlaen llaw. Mae gennym ni lawer i'w wneud.

“

Ble ydw i'n dechrau? Ar sail bersonol – dyrchafol, ysbrydoledig, emosiynol, procio'r meddwl... fel arweinydd, rwyf wedi ymrwymo i chwarae fy rhan i sicrhau bod Cymru'n Wrth-hiliol erbyn 2030 drwy wneud hyn yn flaenoriaeth yn fy ysgol a chymuned fy ysgol fy hun. Dim ond dechrau fy nhaith wrth-hiliaeth yw hyn.

Cyfres Uwch Arweinwyr a Llywodraethwyr DARPL

Trosolwg

Mae cyfres dysgu broffesiynol gwrth-hiliaeth Uwch Arweinwyr a Llywodraethwyr DARPL wedi'i chynllunio i gefnogi arweinwyr i ymgorffori arweinyddiaeth gwrth-hiliaeth a dulliau tîm cyfan ledled eu lleoliad eu hunain. Mae'r gyfres uwch arweinwyr a'r llywodraethwyr yn cynnwys tair sesiwn sy'n dadansoddi gwrth-hiliaeth ac yn archwilio camau y mae angen eu cymryd ar lefel uwch strategol.

Nodau ac Amcanion

Mae'r sesiynau wedi'u cynllunio i gefnogi arweinwyr a llywodraethwyr i wreiddio gwrth-hiliaeth yn eu lleoliad eu hunain. Mae'r tair sesiwn yn archwilio arweinyddiaeth gwrth-hiliaeth a chamau strategol y mae angen eu cymryd.

Mae'r gyfres hon yn edrych ar:

- Diwylliant sefydliadol, effaith hiliaeth ar les a bywydau pobl Dduon, Asiaidd a Mwyafrif Byd-eang eraill ac ar bolisiau a gweithdrefnau a allai achosi effaith andwyol.
- Gwrth-hiliaeth yn cael ei yrru ar lefel strategol i alluogi a sicrhau newid a gwelliant cadarnhaol.
- O fewn y Gyfres Uwch Arweinwyr DARPL gallwch ddewis o blith Arweinwyr Ysgol, Llywodraethwyr, Arweinwyr AB neu Arweinwyr Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar.
- Wrth ymwneud â'r gyfres hon (cydamserol neu asynronig) rydych yn ymrwymo i fynychu'r gyfres gyfan o dair sesiwn a thasgau cysylltiedig.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Arweinwyr a llywodraethwyr.



Impact in Learning

Mae Impact in Learning yn rhaglen ymgysylltu â rhieni sydd wedi ennill gwobrau ac sydd wedi grymuso cannoedd o ysgolion i ymgysylltu'n effeithiol â rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau manteision cyrhaeddiad i ddisgyblion.

Manylion cyswllt: Roy Broadfield, info@impactinlearning.co.uk

Gwefan: www.impactinlearning.co.uk



Roedd ein rhieni wedi ymgysylltu'n fawr. Buont yn trafod cynnydd eu plentyn yn y noson rieni ac yn fodlon derbyn ei fod hefyd yn gyfrifol am gefnogi dysgu eu plentyn.



Cawsom adborth cadarnhaol iawn. Mynychodd rhieni sydd fel arfer yn osgoi cyswllt a gofynnodd sawl rhiant am fwy pan ddaeth y rhaglen i ben.



Mae'r eirfa estynedig yn cael ei defnyddio yn sgwrs y disgyblion ac maent wedi defnyddio'r medrau a ddysgwyd gartref yn eu gwaith dosbarth.

Codi Cyrhaeddiad Disgyblion trwy Arwain Ymgysylltiad Rhieni

Trosolwg

Nod y rhaglen yw ymgysylltu rhieni/gofalwyr yn fwy effeithiol â dysgu plant, trwy ddefnyddio gweithdai cefnogol a darparu adnoddau i ddodrefnu amgylchedd dysgu'r cartref. Yn seiliedig ar yr ymchwil mwyaf diweddar ar yr hyn sy'n gweithio'n dda wrth ymgysylltu rhieni/gofalwyr er budd cyrhaeddiad disgyblion, mae'r rhaglen yn gwahodd cefnogi oedolion i weithdy untro awr o hyd ochr yn ochr â'u plant. Y prif nod yw gwneud rhieni'n ymwybodol o newidiadau cwricwlaidd a'u huwchgilio yn yr addysgeg a'r wybodaeth bynciol ddiweddaraf.

Nodau ac Amcanion

Mae'r rhaglen Impact in Learning yn grymuso arweinwyr ysgol i godi cyrhaeddiad disgyblion trwy ymgysylltu effeithiol â rhieni. Nod y rhaglen yw datblygu arweinwyr a fydd yn hyderus wrth gyflwyno rhaglenni ymgysylltu â rhieni sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau gwell i ddisgyblion. Mae'r dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn sicrhau bod arweinwyr yn cael mewnwleidiad i effeithiolrwydd ymgysylltu â rhieni a sut mae hyn yn effeithio ar gyrhaeddiad disgyblion. Rydym yn ysbrydoli ac yn cymell arweinwyr ac yn darparu adnoddau profedig iddynt i'w gweithredu'n effeithiol yn eu lleoliadau eu hunain.

Mae ysgolion yn rhydd i benderfynu ar y model arweinyddiaeth y byddant yn ei gymeradwyo. Gallai gael ei arwain gan uwch arweinydd yn yr ysgol sydd eisoes wedi'i sefydlu, neu gallai gael ei arwain gan y sawl sy'n gyfrifol am arwain ar ymgysylltu â'r gymuned. Yn rhaglen beilot yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, roedd cyfuniad o'r dulliau hyn ac roedd pob un ohonynt yn llwyddiannus yn eu nodau.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Rhieni a gofalwyr.



Insight HRC Ltd



Mae Insight HRC yn ymgynghoriaeth seicoleg busnes ac arweinyddiaeth sydd wedi'i lleoli yn ne Cymru. Ategir eu hymagwedd hyblyg ac effaith uchel gan y meddylfryd diweddaraf mewn niwrowyddoniaeth a seicoleg ymddygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn galluogi eu tîm o seicolegwyr busnes profiadol, gweithwyr AD proffesiynol ac arbenigwyr L&D i fynd yn wirioneddol at galon diwylliant sefydliad a'r hyn sy'n ei wneud yn unigryw. Mae gan y tîm brofiad helaeth o weithio mewn sectorau o Addysg i Dai, Gwasanaethau Ariannol i awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd i gyfryngau creadigol. Trwy weithio mewn partneriaeth â chleientiaid maent wedi cyflwyno atebion arloesol, effeithiol sy'n ymgysylltu ag unigolion, timau ac arweinwyr. Eu ffocws yw cefnogi datblygiad diwylliannau sefydliadol sy'n cael eu gyrru gan arweinyddiaeth effeithiol.

Manylion cyswllt:

Jemma MacLean, Rheolwr Perthynas Cleientiaid - jemma@insight-hrc.co.uk

Pip Gwynn, Cyfarwyddwr a Seicolegydd Busnes - pip@insight-hrc.co.uk

Gwefan: www.insight-hrc.co.uk

“

Mae'r cwrs wedi cael effaith fythgofiadwy arna i'n bersonol ac yn broffesiynol. Go brin y byddai gennyf ffydd yn fy ngallu fy hun cyn hyn.

“

Cyn gwneud cais fy hun, dywedodd rhywun wrthyf mai dyma'r cwrs DPP gorau a fynychodd fy nghydweithiwr erioed. Roeddwn hi'n ymwybodol ei fod yn cynnwys cryn dipyn o waith darllen a myfyrto personol, ond roedd yn rhaglen fuddiol iawn ac yn un o'r goreuon i'ch paratoi ar gyfer prifathrawiaeth.

“

Mae'r effaith yn anfesuradwy. Fyddwn i byth wedi cael yr hyder i wneud hyn [rôl y Pennaeth] cyn yr LDP.

Rhaglen Datblygu Darpar Arweinwyr Ysgol (ASL)

Trosolwg

Mae'r rhaglen datblygu Darpar Arweinwyr Ysgol wedi'i hanelu at y rheini sy'n dymuno cael swyddi arweinydd ysgol, neu sydd ar hyn o bryd o fewn uwch dîm arweinyddiaeth ysgol. Mae'r rhaglen wedi'i chyflwyno ar y cyd â RCTCBC ers bron i 10 mlynedd, gyda dros 100 o gyfranogwyr yn cwblhau pob rhaglen 9-12 mis yn llwyddiannus. Mae Insight HRC bellach yn cynnig y rhaglen i awdurdodau lleol eraill ledled Cymru. Mae cynnwys y rhaglen wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar er mwyn alinio'n agosach â'r Pedwar Diben Craidd sy'n sail i'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru gyda'r nod o feithrin gallu i arwain a chreu cronfa o arweinwyr hyderus â'r adnoddau da sy'n gallu arwain ysgolion ar draws rhanbarth.

Mae darpariaeth y rhaglen yn cynnwys:

- Gweithdai wyneb yn wyneb i ail-grwpio a dysgu modelau/ dulliau gweithredu i gefnogi gweithredu yn ôl mewn.
- Hyfforddiant gweithredol unigol dros gyfnod o flwyddyn academaidd i gefnogi heriau amser a datblygiad personol.
- Ymchwil annibynnol ar bynciau sy'n effeithio ar addysg ledled Cymru.
- Clybiau llyfrau a ffilm ar-lein yn archwilio arweinyddiaeth mewn gwahanol gyd-destunau.
- Cwblhau profion seicometrig a sesiynau archwiliadol i gefnogi dealltwriaeth cyfranogwyr ohonynt eu hunain a'u heffaith ar eraill.

Nodau ac Amcanion

Amcanion y rhaglen yw:

- Galluogi cyfranogwyr i ymgymryd â rôl rheoli ac arwain ysgol gyda mwy o hyder a gallu
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwahaniaethau rhwng rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol a phwysigrwydd y ddau
- Rhoi amrywiaeth o sgiliau i gyfranogwyr i'w helpu i reoli pobl yn fwy effeithiol, gan gynnwys hyfforddiant ac adborth

- Archwilio egwyddorion arweinyddiaeth, gan ddefnyddio modelau fel Arweinyddiaeth Ddilys ac Arweinyddiaeth Gweision
- Helpu cyfranogwyr i ddeall sut mae'r amgylchedd allanol yn effeithio ar eu meddwl a'u hymddygiad yn ystod newid gyson
- Archwilio sut mae gwerthoedd, credoau ac ymddygiad yn effeithio ar y rhai sy'n ymwneud â'r unigolyn a'i berfformiad ei hun

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae'r rhaglen hon ar gyfer aelodau o dimau arwain ysgolion a'r rhai sy'n dymuno cyflawni rolau arweinyddiaeth ysgol uwch (gan gynnwys Penaethiaid Cynorthwyol a Dirprwy Benaethiaid).



Leading Purpose



Practis arweinyddiaeth a arweinir gan bwrpas sy'n ymdrechu i wella perfformiad mewn timau.

Eu Cenhadaeth yw galluogi Unigolion a Thimau i gofleidio eu pwrpas, er mwyn cyrraedd perfformiad brig.

Maent yn datblygu dysgu unigol yn seiliedig ar fedrau, arweinyddiaeth, rheolaeth a strategaeth. Maent wedi galluogi creu a datblygu nifer o sefydliadau a arweinir gan bwrpas, ac mae'r ymdeimlad hwn o gefnogi cymunedau wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Manylion cyswllt: Mike Crofts - Mike@Amodigo.com

Gwefan: www.leadingpurpose.co.uk

“

Mae'r cyfle a'r profiad dysgu hwn wedi bod yn werthfawr iawn i mi i ddatblygu fy null proffesiynol hyfforddi a mentora fy hun. Mae wedi fy helpu i danategu'r theori y tu ôl i'm dull ymarferol a magu hyder wrth ddefnyddio hyfforddiant.

“

Mae'n werthfawr iawn gwneud y cymhwyster hwn yng nghyd-destun gweithwyr ieuenctid a chael y cymorth wedi'i deilwra ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc.

“

Mae'n wirioneddol bwysig buddsoddi yn arweinwyr gwaith ieuenctid a buddsoddi yn y dyfodol. Trwy fuddsoddi yn y cwrs hwn rydym yn dechrau gwneud hyn. Roedd y cwrs yn werthfawr iawn i mi.

Tystysgrif Hyfforddi a Mentora ar gyfer Gwaith Ieuenctid

Trosolwg

Mae'r cwrs ar-lein hwn yn cynnwys nifer o fodiwlau sydd wedi'u cynllunio i wella gwybodaeth theori ac ymarferol am hyfforddi a mentora. Mae'r modiwl yn cefnogi unigolion trwy dri cham: Dysgu, Gwneud, Adolygu.

Nodau ac Amcanion

Rhoi mwy o ddealltwriaeth a hyder theori i fyfyrwyr gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar hyfforddi yn eu rôl. Bydd myfyrwyr yn gallu diffinio hyfforddi, deall dulliau a modelau hyfforddi craidd, rhoi technegau hyfforddi ar waith ac adolygu eu hymarfer a'u darpariaeth.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae'r cymhwyster wedi'i gynllunio fel cwrs ar-lein yn unig ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio gyda Phobl Ifanc neu oedolion blaenllaw yn y Sector Ieuenctid. Nid yw'r fersiwn hon wedi'i hachredu'n allanol, ond mae wedi'i chymeradwyo gan Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru. Mae sesiynau wyneb yn wyneb ar gael yn ôl y galw.



Mindfulness in Action

Mae Mindfulness in Action wedi'i leoli yng Nghaerdydd ac yn gweithio'n rhithwir ledled Cymru. Ers 2010 mae wedi darparu cyrsiau ymwybyddiaeth ofalgar i'r cyhoedd, mewn pob math o sectorau ac mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Mae cymdeithion Mindfulness in Action wedi'u hyfforddi'n dda mewn ymwybyddiaeth ofalgar ac mae ganddynt brofiad eang o weithio ym maes addysg gan gynnwys gydag arweinwyr a dysgwyr.

Manylion cyswllt:
learningmindfully@gmail.com

Gwefan:
www.mindfulnessinaction.co.uk/mel/

mindfulness in action

Ymwybyddiaeth Ofalgar ar gyfer Arweinwyr Addysg

Trosolwg

Cwrs ymwybyddiaeth ofalgar dros wyth sesiwn yw Ymwybyddiaeth Ofalgar ar gyfer Arweinwyr Addysg, a ddatblygwyd gan Mindfulness in Action, sy'n cefnogi arweinwyr ar bob lefel mewn addysg. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar yn addysgu sgiliau sy'n helpu cyfranogwyr i gael ymdeimlad o lonyddwch a chael mwy o bersbectif ar eu profiad. Gall helpu arweinwyr i ymdopi, cysylltu, ffynnu a grymuso newid. Mae'n dechrau gyda'r unigolyn, ond mae'r effeithiau'n cyffwrdd â chymuned yr ysgol gyfan.

Mae'r sgiliau hyn yn arbennig o berthnasol wrth i arweinwyr fynd i'r afael â newidiadau sylweddol i ysgolion yng Nghymru a ddaw yn sgil Cwricwlwm i Gymru.

Nodau ac Amcanion

Mae Ymwybyddiaeth Ofalgar ar gyfer Arweinwyr Addysg yn cynnwys hyfforddiant ar sut i aros yn bresennol, yn hyddysg ac yn ddilys fel arweinydd, sut i ddod ag agwedd o chwilfrydedd, gwneud penderfyniadau gyda mwy o ymwybyddiaeth, wynebu anawsterau'n ddidrafferth a chysylltu ag eraill â dealltwriaeth well. Mae lle i gyfranogwyr ystyried eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a sut y gallant rannu a chynnal manteision y cwrs.

Mae Ymwybyddiaeth Ofalgar ar gyfer Arweinwyr Addysg yn cyfuno archwiliad drwy brofiad o bosibiliadau ymwybyddiaeth ofalgar mewn sefyllfaoedd personol a phroffesiynol a ddaw i ran arweinwyr gyda chyflwyniad i'r niwrowyddoniaeth sylfaenol.

“

Rwy'n hapusach, mae fy staff yn hapusach, a'r disgyblion yn hapusach!

“

Mae gennyf fwy o dawelwch mewnol a'r gallu i aros yn ddigynnwrf mewn sefyllfaoedd llawn straen ar ninnau yng nghanol y pandemig o hyd.

“

Fodd bynnag, ni fu'r datganiad 'rhowch fasg ocsigen arnoch chi'ch hun yn gyntaf' yn fwy gwir neu angenrheidiol erioed os yw arweinwyr i oroesi heb fewnffrwydro. Mae cymaint o weithredoedd a phryderon pobl eraill yn cael eu rhoi ar ein hysgwyddau ac rydyn ni angen ac yn haeddu'r pecyn cymorth hunanofal gwerthfawr hwn.



Canolfan Rhagoriaeth OLEVI Gogledd Cymru

Mae Canolfan Rhagoriaeth OLEVI yn Ysgol y Creuddyn, Bae Penrhyn ger Llandudno. Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Glan Clwyd ac Ysgol Dyffryn Conwy ac wedi'i hachredu i ddarparu rhaglenni sydd wedi'u datblygu a'u cynhyrchu gan OLEVI International.

Mae Rhaglen Arweinyddiaeth Ragorol mewn Addysg OLEVI yn gwella arweinyddiaeth effeithiol drwy ddarparu fforwm a strwythur i ddatgelu anghenion ysgolion unigol, gan greu archwiliad proffesiynol sy'n adeiladu ar sgiliau i gefnogi a meithrin llwyddiant.

Manylion cyswllt: **Gwenno Mair Davies, Dirprwy Bennaeth, Ysgol y Creuddyn, STDAVIESGM@creuddyn.conwy.sch.uk**



“

Mae'r rhaglen hon wedi rhoi'r hyder i mi weld sut beth yw Arweinyddiaeth, a beth mae hynny'n ei olygu i mi.

“

Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i hunanfyfrio fel 'Arweinydd' a'm cyfrifoldebau wrth arwain unigolion yn yr adran. Mae wedi fy helpu hefyd i ddatblygu strategaethau i hwyluso ac ysgogi eraill i ddatblygu eu sgiliau arwain.

“

Roedd y rhaglen hon yn ddefnyddiol iawn i mi.

OLE – Rhaglen Arweinyddiaeth Ragorol mewn Addysg

Trosolwg

Mae Rhaglen Arweinyddiaeth Ragorol mewn Addysg yn rhoi cyfle ac amser i'r cyfranogwyr archwilio eu harddull arwain eu hunain mewn fframwaith ymchwilgar ond anfeiriadol ac yn annog mwy o gydweithio.

Nodau ac Amcanion

Nod OLEVI yw:

- Codi safonau yn ansawdd yr addysgu mewn ysgolion yn genedlaethol a ledled y byd
- Creu diwylliant dysgu a dysgu llwyddiannus sy'n gadael etifeddiaeth barhaol
- Sicrhau bod pob ysgol yn dod yn ganolfannau rhagoriaeth wrth wella arweinyddiaeth addysgu a dysgu, gan wella deilliannau dysgu i bawb

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae'r rhaglen wedi denu cyfranogwyr o swyddi rheoli canol yn ysgolion uwchradd y Gogledd yn bennaf ond mae wedi cynnwys cyfranogwyr o ysgolion cynradd ac ambell un o ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion hefyd.



Portal Training

Sefydlwyd Portal yn 2010, ac mae'n ddarparwr hyfforddiant dwyieithog deinamig ac arloesol, sy'n helpu sefydliadau i ddatblygu gallu arwain a rheoli eu gweithlu. Gan ddarparu diplomâu ILM mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar lefelau 3, 4, 5 a 7, mae gennym brofiad o gefnogi datblygiad proffesiynol amrywiaeth eang o rolau, o reolwyr newydd i uwch arweinwyr profiadol.

Ar hyn o bryd, mae dros 500 o unigolion yn manteisio ar eu rhaglenni Prentisiaeth Uwch a ariennir yn llawn. Yn ogystal ag Arweinyddiaeth a Rheolaeth, maen nhw wedi ymestyn eu cynnig yn ddiweddar drwy ymgorffori Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, Chwaraeon yn ogystal â Hyfforddi a Mentora i'w cyfres o gymwysterau.

Manylion cyswllt:
info@portaltraining.co.uk
029 2047 4060

Gwefan:
www.portaltraining.co.uk



Prentisiaeth Uwch Lefel 4 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Trosolwg

Rhaglen Brentisiaeth Uwch sy'n cael ei hariannu'n llawn gan gyllid Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop yw'r Diploma Lefel 4 hwn. Nod y rhaglen yw datblygu sgiliau a thechnegau rheoli ac arwain drwy ddull asesu cymysg. Mae'r maes addysg yn gwerthfawrogi'r cymhwyster yn fawr iawn ac mae'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol ar draws pob sector o ddiwydiant.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae'r Brentisiaeth Uwch ILM Lefel 4 ar gyfer athrawon sydd â'u bryd ar arweinyddiaeth ganol neu sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Mae rheolwyr ar y lefel hon yn chwarae rhan annatod yn y gwaith o ddatblygu a chefnogi amcanion sefydliadol drwy amrywiaeth eang o swyddogaethau.

“

Rwy'n teimlo fy mod i wedi gwella fy nealltwriaeth o strategaethau Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac rwy'n teimlo'n fwy hyderus yn fy ngallu i gynllunio'n strategol ar lefel ysgol gyfan.

Erin Davies, Ysgol Uwchradd Aberteifi (Lefel 5)

“

Mae'r cwrs wedi fy helpu i gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer rheoli newid a deall anghenion amrywiol gwahanol reolwyr a sut i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol i wneud newidiadau yn yr ysgol.

Natalie Havard,
Ysgol Uwchradd y Drenewydd (Lefel 5)

“

Bydd y profiad a gefais o'r cymhwyster hwn o fudd i'm sefydliad pryd bynnag y byddaf i'n cyflwyno syniadau arloesol neu newidiadau gweithredol nesaf. Bydd yn fuddiol iawn os caf ddyrchafiad i swydd gyda mwy o awdurdod yn y blynyddoedd i ddod.

Mathew Evans,
St Cyres (Lefel 4)

Prentisiaeth Uwch Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Trosolwg

Rhaglen Brentisiaeth Uwch sy'n cael ei hariannu'n llawn gan gyllid Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop yw'r Diploma Lefel 5 hwn. Nod y rhaglen yw meithrin sgiliau a thechnegau rheoli ac arwain drwy ddull asesu cymysg. Mae'r maes addysg yn gwerthfawrogi'r cymhwyster yn fawr iawn ac mae'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol ar draws pob sector o ddiwydiant.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae'r cymhwyster hwn yn addas i reolwyr canol sy'n gyfrifol am raglenni a/neu adnoddau sylweddol sy'n awyddus i gamu ymlaen yn eu gyrfa yn y sector addysg i rôl uwch. Mae'n datblygu sgiliau sy'n ymwneud â; rheoli pobl, cynllunio strategol, newid strategol a chynllunio proses fusnes i ysgogi gwelliannau ac wedyn gwella perfformiad.

Nodau ac Amcanion

Nodau'r Brentisiaeth Uwch Lefel 4 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth a Phrentisiaeth Uwch Lefel 5 mewn rhaglenni Arweinyddiaeth a Rheolaeth yw cefnogi diwygiadau Cenhadaeth ein Cenedl ym maes Addysg i ddatblygu arweinwyr ysbrydoledig sy'n barod i arwain eu sefydliadau drwy newid. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth fel y gwelir isod

- Y gallu i reoli datblygiad personol eich hun ac eraill - Dysgu Proffesiynol
- Rhoi cyfeiriad yn eu maes cyfrifoldeb – Arweinyddiaeth
- Hwyluso newid - Arloesi
- Cydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol ac adeiladu perthnasoedd/partneriaethau cydweithredol effeithiol – Cydweithio
- Cyflawni'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer unigolion, disgyblion a'r ysgol – Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
- Defnyddio adnoddau'n effeithiol i gyflawni'r uchod – Arloesi a Chydweithio



Consortia Rhanbarthol yng Nghymru

Mae'r Consortia Rhanbarthol yng Nghymru yn cynnwys pum consortiwm ledled y wlad: Consortiwm Canolbarth y De, Gwasanaeth Cyflawni Addysg, GwE, Partneriaeth, Partneriaeth Canolbarth Cymru. Mae'r Consortia Rhanbarthol yng Nghymru yn gweithio gydag ysgolion i godi safonau a darparu ystod o gymorth pwrpasol a chyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol i ymarferwyr ac arweinwyr. Mae'r holl gysiau cenedlaethol a ddarperir gan y Consortia Rhanbarthol yng Nghymru am ddim.

Mae **Consortiwm Canolbarth y De** yn Wasanaeth Addysg ar y Cyd ar gyfer pum awdurdod lleol: Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg.

Y **Gwasanaeth Cyflawni Addysg** yw'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum awdurdod lleol y De-ddwyrain: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

GwE yw gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol y Gogledd, sy'n gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol y Gogledd ac ar eu rhan: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Mae **Partneriaeth Canolbarth Cymru** yn bartneriaeth rhwng Awdurdod Lleol Ceredigion ac Awdurdod Lleol Powys. Mae Ceredigion a Phowys yn gweithio mewn partneriaeth ar sawl maes, yn bennaf drwy Fargen Dwf Canolbarth Cymru ar adfywio economaidd ac maen nhw'n cyd-weithio ar addysg.

Mae **Partneriaeth** yn wasanaeth rhanbarthol integredig sy'n llywio gwelliant mewn ysgolion a chyflawniad dysgwyr ar y cyd â'i thri awdurdod lleol partner: Cyngor Sir Gâr, Cyngor Sir Benfro, Cyngor Dinas a Sir Abertawe.



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia



Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol

Trosolwg

Mae'r rhaglen yn hyrwyddo arweinyddiaeth hynod effeithiol drwy hunanwerthuso a myfyrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach.

Nodau ac Amcanion

Fel rhan o'r continwmm dysgu proffesiynol nod y rhaglen hon yw:

- Meithrin dealltwriaeth o'r rôl
- Datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o'r agenda ddiwygio genedlaethol
- Datblygu eu hymarfer o fewn y safonau arweinyddiaeth ffurfiol
- Paratoi ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol ag elfennau pwrpasol o wybodaeth a sgiliau arbenigol; Meysydd Dysgu a Phrofiad, ADY, Cymraeg, ysgolion ffydd, ysgolion bach ac ati.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae'r rhaglen hon ar gael i bob arweinydd canol ledled Cymru sydd â meysydd cyfrifoldeb a/neu'n rheolwr llinell ar staff.

Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr

Trosolwg

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys pum modiwl sy'n caniatáu i gyfranogwyr fyfyrion ar eu heffeithiolrwydd unigol fel arweinydd. Bydd y cyfranogwr yn gweithio'n unigol ac ar y cyd ag eraill fel arweinwyr sefydliadau dysgu. Rhaglen genedlaethol yw hon sy'n cael ei chydlyn gan y Consortia Rhanbarthol, gan ddefnyddio amrywiaeth o bartneriaid cyflawni, mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol.

Nodau ac Amcanion

Nod y rhaglen yw:

- Datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o rôl uwch arweinydd
- Datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau y dylai uwch arweinydd effeithiol eu gwybod a gallu eu mabwysiadu
- Cael cyfle i ddatblygu'r ymddygiadau arwain sydd eu hangen ar gyfer uwch arweinydd effeithiol
- Datblygu eu hymarfer o fewn y safonau arweinyddiaeth ffurfiol

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae'r rhaglen hon ar gyfer arweinwyr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am agwedd ar arweinyddiaeth ar draws sefydliad. Mae hyn yn cynnwys uwch arweinwyr cwricwlwm/bugeiliol ac aelodau o uwch dîm arwain, megis penaethiaid cynorthwyl neu ddirprwy benaethiaid.



Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid - Paratoi ar gyfer CPCP

Trosolwg

Mae Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid - Paratoi ar gyfer CPCP yn rhaglen pum modiwl sy'n cael ei chyflwyno dros dri thymor sy'n cwmpasu dwy flynedd academaidd, gan gychwyn ar ddechrau tymor y gwanwyn, a'i chwblhau erbyn diwedd tymor yr hydref. Mae'r modiwlau'n archwilio Gwneud Gwahaniaeth, Arweinyddiaeth, Addysgeg Arweiniol a Datblygiad Effeithiol Gweithlu'r Ysgol.

Nodau ac Amcanion

Mae'r rhaglen yn hyrwyddo arweinyddiaeth hynod effeithiol drwy hunanwerthuso a myfyrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach. Bydd cyfranogwyr yn cyflawni gweithgareddau cyfoethogi sy'n adeiladu ar brofiad blaenorol.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae'r rhaglen hon ar gyfer darpar benaethiaid er mwyn paratoi ar gyfer cyflawni'r asesiad sy'n ofynnol ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP).

Rhaglen Datblygu Penaethiaid Dros Dro a Phenaethiaid Newydd

Trosolwg

Nod y rhaglen yw helpu Penaethiaid Newydd i gael y wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw i weithio'n effeithiol yn genedlaethol ac yn lleol ynghyd â darparu datblygiad unigol gan ganolbwyntio ar y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn Benaeth llwyddiannus. Mae'r rhaglen wedi'i strwythuro mewn tri cham: Cam 1 - Gwaith cyn-rhaglen a hunan-ddadansoddiad yn erbyn y Safonau Arweinyddiaeth Ffurfiol, Cam 2 - Blwyddyn 1 prifathrawiaeth a Cham 3 - Blwyddyn 2 prifathrawiaeth.

Nodau ac Amcanion

Nod y rhaglen yw archwilio a datblygu sgiliau cyfranogwyr er mwyn:

- Datblygu strategaethau, strwythurau a systemau i sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol tuag at gyflawni ei gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar ddysgu pob myfyriwr
- Cydweithio ag eraill i arwain eu hysgol yn effeithiol yn ei chymuned
- Datblygu diwylliant ac ymarfer o arloesi priodol ar draws a thu hwnt i'w hysgol
- Sicrhau amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer gweithlu'r ysgol
- Arwain gwelliant cynaliadwy mewn addysgeg yn yr ysgol

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Penaethiaid Newydd/Dros Dro.

Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol

Trosolwg

Mae Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol yn hyrwyddo arweinyddiaeth hynod effeithiol drwy hunanwerthuso a myfyrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach.

Nodau ac Amcanion

Bydd cyfranogwyr yn:

- Myfyrio ar eu harddull arweinyddiaeth eu hunain a sut mae eu harweinyddiaeth yn effeithio ar eraill
- Myfyrio ar amrywiaeth o arddulliau arwain gwahanol
- Deall theori newid a sut mae hyn yn effeithio ar eu harweinyddiaeth ar y daith ddiwygio drawsnewidiol
- Cydweithio ag eraill i arwain eu hysgolion yn effeithiol a chael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth ledled Cymru
- Ymwreiddio diwylliant ac ymarfer o arloesi priodol ar draws a thu hwnt i'w hysgol

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Penaethiaid profiadol.

Cynllunio Strategol ar gyfer yr Iaith Gymraeg: Rhaglen Ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg

Trosolwg

Mae'r rhaglen yn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer Miliwn o siaradwyr Cymraeg a gweledigaeth Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhaglen hefyd yn adlewyrchu'r cwestiynau a amlinellwyd i gefnogi hunanwerthusiad o'r Gymraeg sy'n cyd-fynd efo'r Adnodd Cenedlaethol: Gwerthuso a Gwella.

Nodau ac Amcanion

- Gweledigaeth strategol, agweddau ac ymddygiad
- Cynllunio strategol ar gyfer datblygiad proffesiynol y gweithlu
- Sefydlu gweledigaeth cwricwlwm, cynllunio a darpariaeth
- Gwerthuso'r ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer gwelliant

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at benaethiaid neu uwch arweinwyr sydd wedi'u sefydlu yn eu swyddi, sydd newydd eu penodi neu'r rhai sy'n dymuno arwain mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Bydd hefyd o fudd i arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion sy'n pontio i gynyddu cyfran y ddarpariaeth Gymraeg yn unol â'r llwybr categoreiddio.

Rethinking Education



Sefydliad hyfforddi athrawon yw Rethinking Education sy'n arbenigo mewn gwella canlyniadau disgyblion trwy wyddor gweithredu a gwella, effeithiolrwydd dysgwyr ac ymholi ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith yn ymwneud â hwyluso rhaglenni gwella ysgolion blynyddol neu aml-flwyddyn. Rydym yn aml yn rhoi cyweirnod ac yn cynnal gweithdai mewn cynadleddau addysg, ac rydym yn cynnal ystafell hyfforddi ar-lein ar gyfer ein rhaglen flaenllaw, Making Change Stick. Rydym hefyd yn ymgyrchu dros newid lefel system trwy ein podlediad, ein blog, ein rhwydwaith cynadleddau a thrwy'r Gynghrair Polisi Addysg.

Manylion cyswllt: Dr James Mannion, james@rethinking-ed.org, 07919 846 916
Cyfeiriad gwe: makingchangestick.co

“

“Mae'r effaith wedi bod yn enfawr... Fel ysgol, wrth symud ymlaen, bydd popeth rydyn ni'n ceisio ei roi ar waith yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r dull hwn oherwydd rydyn ni wedi ei gael mor llwyddiannus. Felly ewch amdani!”

Sarah O'Kelly, Dirprwy Bennaeth, Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, Sir Gaerfyrddin

“

“Rwy'n gentigennus o'r rhai ar ddechrau eu gyrfa sydd â rhywbeth fel hyn... rwy'n gobeithio mai dyma fydd fy etifeddiaeth i'r ysgol hon. Os nad ydw i wedi gwneud dim byd arall iddyn nhw, rwy'n gobeithio mai dyma y byddan nhw'n diolch i mi amdano ymhen 20 mlynedd.”

Margot Thomas, Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gynradd Llandyfai, Sir Benfro

“

“Mae'r tîm slice wedi bod yn ffordd drawsnewidiol i ni o roi newid ar waith. Mae gan bawb lais ac mae hynny'n gwneud prynu i mewn ar draws yr ysgol yn llawer mwy pwerus.”

Sean Thomas, Arweinydd Codi Safonau, Ysgol Aberdaugleddau, Sir Benfro

Making Change Stick

Trosolwg

Mae Making Change Stick yn ddull arloesol, cynhwysol, hynod effeithiol o roi gwelliant ysgol ar waith. Mewn cyferbyniad â rheoli newid o'r brig i'r bôn – nad yw'n gweithio'n aml – yn y rhaglen Making Change Stick, caiff gwella ysgolion ei ysgogi gan 'dîm tafell' sy'n cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid allweddol. Gan ddwyn ynghyd syniadau a strategaethau sydd wedi'u profi o amrywiaeth o feysydd – yn enwedig gwyddoniaeth gweithredu a gwyddoniaeth gwella – mae rhaglen Making Change Stick yn arwain cyfranogwyr drwy'r broses o hybu canlyniadau disgyblion drwy roi menter gwella ysgolion y byd go iawn ar waith.

Nodau ac Amcanion

Ar lefel ysgol, y nod yw sicrhau newid parhaol, cadarnhaol ym mha bynnag agwedd ar wella'r ysgol y mae'r ysgol yn dewis canolbwyntio arni (e.e. cwricwlwm, ymddygiad, llythrennedd...) Ar lefel system, y nod yw sicrhau newid sylweddol o ran gwella deilliannau disgyblion. Yng nghyd-destun Cymru, mae'r rhaglen Gwneud i Newid Glyn yn ddelfrydol ar gyfer gwireddu potensial Cwricwlwm i Gymru ar lefel ysgolion, clystyrau, rhanbarthau ac yn genedlaethol.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Cynlluniwyd y rhaglen i gael ei defnyddio gan bawb ym myd addysg – athrawon, arweinwyr, staff cymorth, disgyblion a rhieni a gofalwyr.



Grŵp Llywio Rhaglen Arwain a Rheoli Gwaith Ieuenctid

Ffurfiwyd Grŵp Llywio Rhaglen Arwain a Rheoli Gwaith Ieuenctid (Safonau Addysg a Hyfforddiant (ETS), Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS), Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru (PYOG), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), TAG Cymru) er mwyn hyrwyddo, cefnogi a goruchwyllo datblygiad rhaglen arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer uwch arweinwyr a darpar arweinwyr yn y sector gwaith ieuenctid. Un o nodau allweddol cynllun gwaith Grŵp Cyfranogiad Strategaeth Datblygu'r Gweithlu ac fel rhan o'i gylch gwaith yw gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfer model cynaliadwy ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

Manylion cyswllt: Steve Drowley – Cadeirydd ETS Cymru I Wales a Grŵp Llywio Rhaglen Arwain a Rheoli Gwaith Ieuenctid – drowleysteve@gmail.com

Emma Chivers - Prif Diwtor – emma@ec-consultancy.co.uk

Gwefan: www.ets.cymru



Helpu i ymarfer bod yn bresennol a chael eich disgyblu gyda chydbwysedd bywyd a gwaith sydd wedi helpu i leihau straen



Dylanwadu a lleoli - mor bwysig iawn ac mae angen i mi neilltuo mwy o amser i hyn; Mae 'Lleoli eich sefydliad' wedi fy arwain i fyfyrion ar sut i wneud perthynas allanol yn fwy effeithiol.



Roedd darpariaeth wych, cyflymdra gwych, tiwtoriaid gwych yn creu amgylchedd dysgu gwych.

Rhaglen Arwain a Rheoli Gwaith Ieuenctid

Trosolwg

Mae'r Rhaglen Arwain a Rheoli Gwaith Ieuenctid yn rhaglen arweinyddiaeth a rheolaeth, wedi'i dylunio ar y cyd â chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector gwaith ieuenctid ac wedi'i gosod mewn cyd-destun i weddu i anghenion arweinwyr a rheolwyr gwaith ieuenctid presennol yng Nghymru. Mae'r rhaglen, sy'n cynnwys tri modiwl wyneb yn wyneb ynghyd â dysgu a chymorth ar-lein, wedi'i bwriadu ar gyfer arweinwyr a rheolwyr presennol yn y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol sydd am wella eu sgiliau a'u hyder i arwain gwaith ieuenctid yn effeithiol ar adeg o gymhlethdod a newid sylweddol. Disgwylir i gyfranogwyr fod yn gyfrifol am arwain / rheoli swyddogaethau gwaith ieuenctid eu sefydliadau neu rannau sylweddol ohonynt.

Nodau ac Amcanion

Mae'r ddarpariaeth hon yn fodel o ddysgu myfyriol, gan gymhwyso egwyddorion ac arferion gwaith ieuenctid, ac wedi'i dylunio i gefnogi Strategaeth Genedlaethol Gwaith Ieuenctid Cymru. Mae canlyniadau yn cynnwys:

- Archwilio modelau arweinyddiaeth ar waith, diwylliant sefydliadol, cyd-destunau gwaith a pholisi.
- Datblygu sgiliau a hyder wrth hyrwyddo gwerth gwaith ieuenctid, rheoli darpariaeth gwaith o ansawdd uchel, rheoli cyllid, arwain a rheoli staff, hyfforddi a mentora.
- Deall arweinyddiaeth systemau, arwain mewn partneriaethau a thimau amlddisgyblaethol, ac arwyddocâd pŵer, dylanwad a lleoliad.
- Archwilio sut i wella fel arweinydd, cael cynllun gweithredu personol ar gyfer datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth.

Cam Datblygu Gyrfa ac Arweinyddiaeth

Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chynllunio ar gyfer uwch arweinwyr a darpar arweinwyr a rheolwyr mewn gwaith ieuenctid.





Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

Ysbrydoli Arweinwyr – Cyfoethogi Bywydau

agaa.cymru

